

Atodiad 2

Ymgynghoriad Polisi Enwi Strydoedd: sylwadau a diwygiadau i destun y polisi

Gan:	Sylwadau	Ymateb	Testun polisi diwygiedig (newidiadau mewn ffont wedi ei danlinellu)
Comisiynydd y Gymraeg	<p>Parthed pwynt 1.2.3 yn benodol, byddai'r polisi yn cael ei gryfhau ymhellach trwy gynnwys cyfeiriad uniongyrchol at gyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg i safoni Enwau Lleoedd Cymraeg a chynnwys uwch-ddolen i Enwau Lleoedd a gyhoeddir ar ein gwefan. Byddai hefyd yn werthfawr cyfeirio at http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20190513%20DG%20C%20Canllawiau%20Safoni%20Enwau%20Cymru.pdf sy'n llywio gwaith ein panel: er bod y canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf ag enwau aneddiadau, maent yn cynnwys egwyddorion sydd yr un mor berthnasol i enwau strydoedd ac eiddo. Ar ben hynny, bydd rhai enwau strydoedd yn cynnwys aneddiadau neu leoliadau eraill yng Nghaerdydd a thu hwnt felly mae'n bwysig sicrhau y sillefir yr elfennau hynny yn gyson. Byddem yn eich annog i gyfeirio at yr adnoddau hyn mewn man amlwg ar eich gwefan a</p>	<p>Argymhell fod cyfeiriad yn cael ei gynnwys yn y polisi ac ar y wefan, yn unol â'r awgrym.</p>	<p>1.2.3. Mae cyfrifoldebau a grymoedd statudol gan y Cyngor i gynnal rhestrau cywir wedi eu diweddarau o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn sicrhau fod y rhestrau o safon uchel a bydd yn cynnal archwiliad o'r rhestr a gynhelir ganddo er mwyn sicrhau safoni lle bo angen. <u>Ar ben hynny, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb dros safoni enwau lleoedd Cymraeg.</u> <u>Mae dogfennau cyfeirio defnyddiol yn cynnwys</u> <u>Enwau Lleoedd a</u> http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20190513%20DG%20C%20Canllawiau%20Safoni%20Enwau%20Cymru.pdf sydd ill dau ar gael yma.</p>

	<p>chyfeirio atynt fel rhan o'ch prosesau cynllunio er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth datblygwyr ohonynt. Carwn hefyd dynnu'ch sylw at yr adran ganllawiau ar ein gwefan sy'n cynnwys cyngor i ddatblygwyr a swyddogion awdurdodau lleol yn ymwneud ag enwi datblygiadau newydd a chynnwys enwau lleoedd ar arwyddion.</p>		
Comisiynydd y Gymraeg	<p>Byddai cynnwys cyfeiriad at https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/ hefyd yn cryfhau'r polisi ymhellach. Rwy'n ymwybodol bod nifer o awdurdodau lleol yn cyfeirio datblygwyr at y rhestr hon yn gynnar yn y broses gynllunio er mwyn iddynt geisio enwau hanesyddol addas cyn i enwau masnachol anaddas ddod yn gyfarwydd. Dylwn bwysleisio fodd bynnag, mae rhestr o leoedd hanesyddol yw hwn ac na fydd y ffurfiau wedi eu safoni. Byddem yn fwy na pharod i'ch cynghori chi ynghylch sut i ddangos yr enwau hyn mewn Cymraeg cyfoes a safonol pe byddech angen hynny.</p>	<p>Argymhell fod cyfeiriad yn cael ei gynnwys yn y polisi ac ar y wefan, yn unol â'r awgrym.</p>	<p>3.1 Egwyddor Gyffredinol 3.1.1.</p> <p>Mae cefndir hanesyddol sylweddol gan Gaerdydd ac felly er mwyn gwarchod y dreftadaeth hon, bydd ffafriaeth yn cael ei roi i gynlluniau enwi sydd â chyd-destun hanesyddol a lleol. Mae panel enwi gan y Cyngor sydd ag arbenigedd allanol i hwyluso, cynghori ac awgrymu dewisiadau ar bob mater enwi yn ymwneud â datblygiadau newydd (gweler hefyd 1.2.1). Dylid cyfeirio hefyd at adnoddau priodol, fel https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/</p>
Comisiynydd y Gymraeg	<p>Carwn hefyd awgrymu y gellid cryfhau y cyngor yn 4.6 parthed ail-enwi eiddo drwy bwysleisio efallai bod arwyddocâd hanesyddol neu ieithyddol i enwau sy'n</p>	<p>Argymhell fod testun y polisi yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at enwau hanesyddol/ieithyddol arwyddocaol</p>	<p>4.6.1 Gall enw eiddo sy'n bodli yn barod gael ei newid. Ni ddylai'r enw arfaethedig fod yn cael ei ddefnyddio gan eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i</p>

	<p>bodoli'n barod ar eiddo ac y byddech am annog pobl i ail-ystyried cyn ail-enwi enwau hanesyddol. Mae hyn yn arfer cyffredin gan rai awdurdodau lleol ac er nad yw'r broblem mor amlwg mewn ardal drefol fel Caerdydd, mae peryg y gellid colli rhai enwau pwysig. Mae'r atodiad i'r https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-dreftadeath-yr-arfordir yn rhoi mwy o arweiniad ar sut i ymgynghori â'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol wrth ystyried ceisiadau i ail-enwi. Efallai y gall eich panel enwi arfaethedig eich cynghori parthed pa enwau sydd ag arwyddocâd hanesyddol arbennig.</p>	<p>ac i gynnwys cyfeiriad at Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol, yn unol â'r awgrym.</p>	<p>enw eiddo arall, yn yr ardal. Caiff gwiriad manwl ei wneud unwaith y derbynnir cais er mwyn osgoi dyblygu ac ni dderbynnir enwau y gellid eu hystyried yn dramgwyddus, gwahaniaethol neu anllad, neu sy'n agored i gael eu camddechongli. <u>Pan fydd enwau yn meddu ar arwyddocâd hanesyddol neu ieithyddol penodol, ni chefnogir ail-enwi.</u> Ceir canllawiau pellach yn yr atodiad i'r https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-dreftadeath-yr-arfordir</p>
Comisiynydd y Gymraeg	<p>Ysgrifennais at y Prif Weithredwr yn 2018 i nodi fy awydd i adolygu'r cofnodion yn y Rhestr o Enwau Safonol sydd ar-lein ar gyfer Caerdydd. Yn wir, byddai'n amserol i chi sicrhau eu bod yn gyfredol a chywir cyn i chi weithredu ar y polisi. Bydd Dr Eleri James, y prif swyddog sy'n gyfrifol am y project safoni, yn fwy na pharod i drafod hyn ymhellach gyda chi: eleri.james@cyg-wlc.cymru.</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn drwy Caerdydd Ddwylieithog – dim effaith uniongyrchol ar y polisi drafft.</p>	

Comisiynydd y Gymraeg	Edrychaf ymlaen at weld beth fydd eich camau nesaf parthed y gwaith hwn a buaswn yn gwerthfawrogi pe gallech yrru diweddariad at Eleri James unwaith fo'r polisi hwn wedi derbyn y gymeradwyaeth angenrheidiol a'i fod yn weithredol. Byddai diddordeb mawr gennym i ddysgu mwy am weithredu'r polisi a'i ganlyniadau maes o law.	Nodwyd.	
Cymdeithas yr Iaith – templed e-bost	Annwyl Cyngor Caerdydd, Croesawaf benderfyniad y Cyngor i sicrhau mai enw Cymraeg yn unig fydd ar bob stryd newydd i'w hadeiladu yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, teimlaf fod lle gan y cyngor i wella'r polisi drafft hwn, drwy ychwanegu nifer o gymalau i'w gryfhau ac a fydd yn adlewyrchiad clir o dreftadaeth leol yn hanesyddol ac ieithyddol:	Nodwyd.	
Cymdeithas yr Iaith – templed e-bost	Datblygiadau newydd Dylai'r cyngor sicrhau mai enw Cymraeg yn unig sydd ar bob datblygiad newydd, gan gynnwys ystadau ac ardaloedd newydd. Dylai'r cyngor fynnu fod enwau Cymraeg gan gwmnïau datblygu ar gyfer unrhyw ddatblygiad, ar ddechrau'r broses ddatblygu, er mwyn datrys y broblem o gael datblygiadau ag enwau dros dro	Argymhell fod testun y polisi yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu safbwynt y Cyngor o annog y defnydd ar enwau Cymraeg a cheisio sicrhau fod enwau yn adlewyrchu treftadaeth hanesyddol/diwylliannol/ieithyddol ol trwy annog datblygwyr i ymgynghori a chymunedau lleol.	3.2. Defnydd o Deitlau Marchnata Answyddogol <u>3.2.1 Er mwyn sicrhau fod enwi yn adlewyrchu treftadaeth hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol, bydd y Cyngor yn annog datblygwyr i ymgynghori â chymunedau lleol yn gynnar yn y broses ddatblygu. Lle bydd enwi yn cael ei ystyried yn gynnar yn y broses, gall fod yn</u>

	<p>sy'n dod yn enwau cyffredin ar ddatblygiadau newydd, megis enghraifft y 'Regency Park' i'r gogledd o'r ddinas.</p>		<p><u>anaddas defnyddio teitlau marchnata answyddogol.</u></p> <p>3.2.2 Ni fydd y Cyngor yn mabwysiadu teitlau 'marchnata' neu themâu answyddogol gan ddatblygwyr ar gyfer gwerthu eiddo newydd, oni bai fo'r cyd-destun hanesyddol neu leol wedi ei gytuno ymlaen llaw (gweler hefyd 3.1.1). Mewn amgylchiadau felly, caiff y thema a gytunir ei mabwysiadu fel sail i'r cynllun enwi strydoedd cymeradwy.</p> <p>3.2.3. Ni chaniateir mabwysiadu teitlau 'marchnata' wrth greu lleoliadau neu enwau pentrefi deniadol 'answyddogol'.</p> <p>3.2.4. Cynghorir datblygwyr felly i fod yn ofalus wrth ddefnyddio enwau datblygu at ddibenion marchnata os nad yw'r enw wedi ei gytuno ymlaen llaw.</p> <p>3.2.5. Dylid hefyd tynnu sylw mewn llenyddiaeth a ddosberthir i ddarpar brynwyr bod unrhyw enwau marchnata yn amodol ar gael eu cymeradwyo ac efallai felly am newid.</p>
--	---	--	--

Cymdeithas yr Iaith – templed e-bost	Mae angen i'r cyngor hefyd edrych ar effaith ehangach ei bolisi cynllunio a sut mae hwnnw yn tanseilio'r egwyddor gyffredinol.	Wedi ei drafod â Caerdydd Ddwyeithog – dim effaith uniongyrchol ar y polisi drafft.	Dd/B
Cymdeithas yr Iaith – templed e-bost	<p>Strydoedd yng Nghanol y Ddinas</p> <p>Dylid ail-ymweld â'r adran ar strydoedd 'dwyieithog' ar y prif lwybrau i ganol y ddinas ac ardal y Bae.</p> <p>Dylid sicrhau fod pob stryd yn yr ardaloedd yma yn dangos enwau Cymraeg hanesyddol, nad sydd i'w gweld ar arwyddion ar hyn o bryd. Er enghraifft, dylid defnyddio 'Heol y Fwch Goch' ar gyfer 'Womanby Street': Heol y Plwca ar gyfer 'City Road'</p>	Trafodwyd gyda Chaerdydd Ddwyeithog, - does dim ymhlygiadau uniongyrchol ar y polisi drafft, fodd bynnag bydd y panel enwi'n cwrdd maes o law i adolygu enwau dwyieithog sydd yn y ddinas ar hyn o bryd, yn ogystal ag awgrymu enwau newydd i'w mabwysiadu, er enghraifft pan fo angen enwau dwyieithog yng Nghanol y Ddinas a'r Bae i fod yn gyson â'r polisi newydd.	Dd/B
Cymdeithas yr Iaith – templed e-bost	<p>Adfer Enwau Cymraeg i strydoedd sy'n bodoli eisoes sydd ag enwau uniaith Saesneg</p> <p>Credaf hefyd y dylid cael proses yn ei le i ailystyried enwau strydoedd Saesneg uniaith sy'n bodoli'n barod.</p>	Mae'r polisi'n cadarnhau y bydd enwau dwyieithog ar waith ar gyfer rhai strydoedd ac ardaloedd penodol. Bydd y panel enwi'n ystyried unrhyw faterion fydd yn codi o ran enwau dwyieithog ar strydoedd yn yr ardaloedd hyn. Mae'n dilyn felly na fydd enwau uniaith yn yr ardaloedd hyn. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, yn bennaf o ran strydoedd preswyl y ddinas,	Dd/B

		mae'r polisi'n cynnig y bydd strydoedd yn parhau fel y maen nhw yn yr iaith y maen nhw'n cael eu hadnabod ynddi ar hyn o bryd.	
Dr Dylan Foster Evans	<p>“Rwy'n cytuno gyda bwriad y Cyngor i weithio tuag at 'ddefnydd cyfartal rhwng enwau strydoedd Cymraeg ac enwau strydoedd Saesneg ar draws y ddinas'. Rwy' hefyd yn cytuno â'r bwriad i fabwysiadu 'enw Cymraeg sydd yn gyson â threftadaeth a hanes lleol ardal' ar gyfer pob stryd.</p> <p>Mae gan Gaerdydd dreftadaeth dopomynaidd gyfoethog ac yn ardaloedd y datblygiadau newydd, ceir digon o enwau Cymraeg hanesyddol (ffermydd a chaeau).</p> <p>Fodd bynnag, carwn i wneud pwynt pwysig arall, sef bod enwau lleoedd Cymraeg yn rhan o dreftadaeth siaradwyr Saesneg Caerdydd yn ogystal (ac yn rhan o dreftadaeth siaradwyr ieithoedd eraill hefyd). Mae enwau Cymraeg wedi eu benthyg gan Saesneg Caerdydd ers canrifoedd, ac mae'r Athro Peter Wynn Thomas wedi nodi eu bod yn ffurfio rhan o'r corff pwysicaf o enghreifftiau o ffenomen brin: geiriau a fenthyciwyd o'r Gymraeg i'r Saesneg'.</p>	Nodwyd.	Dd/B

<p>(Mae'r sefyllfa parthed benthg i'r cyfeiriad arall yn dra gwahanol, wrth gwrs; mae dylanwad y Saesneg ar y Gymraeg yn eang mewn amrywiol ffyrdd.)</p> <p>Yn y categori hwn o enwau hanesyddol sydd wedi eu benthg i Saesneg Caerdydd y mae <i>Cardiff</i> ei hun ac enwau fel <i>Cyncoed</i>, <i>Gabalfa</i>, <i>Lisvane</i>, <i>Maindy</i>, <i>Mynachdy</i>, <i>Pentrebane</i>, <i>Radyr</i>, <i>Rhiwbina</i>, <i>Roath</i>, <i>Wentloog</i> a nifer o enwau eraill. Mae'r modd y benthyciwyd yr enwau hyn, o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'u haddasu o ran ynganu a/neu sillafu yn rhan unigryw o'r diwylliant ieithyddol Saesneg yng Nghaerdydd. I'r perwyl hwnnw, mae enwau Cymraeg wedi cyfoethogi'r diwylliant hwnnw.</p> <p>Er nad yw enwau strydoedd Cymraeg mor gyffredin ag enwau strydoedd Saesneg yng Nghaerdydd, mae enghreifftiau o ddefnyddio enwau Cymraeg mewn nifer o ardaloedd. Yn Grangetown mae gennych strydoedd fel <i>Coedcae</i>, <i>Llanbradach</i>, <i>Clydach</i> ac <i>Abercynon</i> (trwy ddylanwad teulu'r Bute), ymhlith eraill. Yn Sblot, ceir strydoedd a enwir yn <i>Aberystwyth</i> ac <i>Aberdovey</i>, er enghraifft ac yn <i>Gabalfa</i> fe gewch <i>Aberteifi</i> ac <i>Aberporth</i> fel enwau strydoedd.</p>		
--	--	--

Mae'r Athro Nicholas Coupland (1984) wedi trafod sut y mae pobl Caerdydd yn ynganu'r enwau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n unigryw i'r ddinas.

I grynhoi, mae hanes yn dangos bod enwau Cymraeg wedi dod yn eiddo i bawb yn y ddinas, ac yn rhan unigryw o Saesneg Caerdydd. Yn ogystal â rhoi cyfle inni ddiogelu enwau Cymraeg hanesyddol, byddai'r polisi hwn yn caniatáu i bobl Caerdydd nad ydynt yn siarad Cymraeg gael y cyfle i berchnogi'r etifeddiaeth honno yn eu ffordd eu hunain.

Coupland, Nicholas. 1984. Social and linguistic considerations in the pronunciation of Welsh place-names in Cardiff. *Papurau Gwaith Ieithyddol Cymraeg Caerdydd / Cardiff Working Papers in Welsh Linguistics*, 3, 31–44

Thomas, Peter Wynn.
1992. Ynganiadau gwael a llygriadau: ffurfiau Saesneg ar enwau priod Cymraeg. *Papurau Gwaith Ieithyddol Cymraeg Caerdydd / Cardiff Working Papers in Welsh Linguistics*, 8, 71–92

Adroddiad ymgynghori	Roedd tri o bob pump (60.8%) yn cytuno â'r cynnig er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gweithio tuag at nifer cyfartal o strydoedd ag enwau Cymraeg a rhai ag enwau Saesneg ar draws y Ddinas. Fel cymhariaeth, roedd bron iawn i chwarter (23.6%) yn anghytuno â'r cynnig.	Ni chynigir newidiadau i'r polisi.	Dd/B
	Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (93.8%) yn cytuno ar roi blaenoriaeth i enwi cynlluniau a strydoedd â chyd-destun hanesyddol a lleol.	Ni chynigir newidiadau i'r polisi.	Dd/B
	Roedd dros traean (34.6%) o ymatebwyr yn teimlo y dylai grwpiau Treftadaeth/Hanes fod yn rhan o'r broses enwi, a dilynwyd hyn gan sefydliadau cymunedol lleol/preswylwyr a gâi eu heffeithio (31.4%) a grwpiau Cymraeg (20%).	Nodwyd ac argymhelliad fod angen trafodaeth bellach ar sut i gynnwys grwpiau rhanddeiliaid/unigolion yn rhan o'r broses enwi strydoedd. Awgrym fod y Panel Enwi Strydoedd yn cynnig mecanwaith priodol ar gyfer hyn.	Dd/B
	Roedd bron i dri o bob pump (58.0%) yn ansicr os oedd y protocolau yn egluro'r broses i'w dilyn yn eglur, tra bod traean (34.8%) yn teimlo ei bod yn eglur.	Mae map proses wedi ei gynnwys yn y Polisi.	Map proses wedi'i ychwanegu at y ddogfen polisi (Atodiad 2).
	Roedd un o bob pedwar ymatebydd (23.5%) i'r cwestiwn hwn yn teimlo y dylid hysbysu preswylwyr/busnesau/cyhoedd yn gyffredinol pan fyddai cais ar gyfer enwi a rhifo stryd yn cael ei gwblhau. Dilynwyd hyn gan gwmnïau cludo	Nodwyd ac argymhellir fod trafodaeth bellach i'w chynnal gyda rhanddeiliaid amrywiol yn y Cyngor er mwyn bwydo'r drefn weithredu fel y bo'n briodol. Ni chynigir newidiadau i'r polisi.	Dd/B

	nwyddau (18.1%) a systemau Llywio Lloeren (14.9%).		
	Ymatebion testun rhydd - Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol ar y Gymraeg?	Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer cynyddu'r effaith gadarnhaol, gan gynnwys cefnogi'r defnydd ar y Gymraeg trwy gynnig help gydag ynganu enwau strydoedd. Er na wnaed newid i eiriad y polisi yn sgil yr adborth hwn, bydd ymarferoldeb bwrw ymlaen a rhai o'r awgrymiadau fel camau gweithredu yn cael ei ystyried gyda'r rhanddeiliaid priodol. Er enghraifft, datblygu canllaw ynganu a fyddai ar gael ar wefan y Cyngor, ymchwilio i gyfleoedd i gynnwys rhanddeiliaid (e.e. cymunedau lleol, grwpiau hanes lleol, plant a phobl ifanc) yn y broses enwi strydoedd a darparu gwybodaeth gefndirol am ddatblygiad enwau strydoedd newydd ar wefan y Cyngor.	Dd/B
Ymateb Cynghoryd d 1:	Yr hyn nad yw'n glir yw pan gaiff safle newydd, dyweder o 20 heol, ei hadeiladu, sut caiff y gymhareb Cymraeg/Saesneg ei chyfrifo. Fy newis greddfol fyddai 50/50. Ond nid yw	Ni chynigir newidiadau i'r polisi. Darperir ar gyfer disgrisiwn lleol wrth enwi strydoedd, gyda ffafriaeth i gynlluniau enwi sydd â chyd-destun hanesyddol a lleol er mwyn cefnogi treftadaeth	Dd/B

Ymateb Cynghoryd 2:	polisi'r Cyngor yn glir i mi. Mae angen ymagwedd gymesur Buaswn yn ategu sylwadau ac arsylwadau fy nghydweithiwr	hanesyddol ac ieithyddol Caerdydd.	
Newidiadau eraill	Gellid cyfeirio at y Ddeddf Amgylcheddau Hanesyddol yn y polisi.	Ychwanegwyd y cyfeiriad yn unol â'r awgrym.	1.1.5 Mae enwi strydoedd hefyd yn rhan allweddol o greu lle, ac mae'n bwysig yng nghyd-destun ymrwymiad y Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Safonau'r Gymraeg a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
Newidiadau eraill	Tynnu'r uwch-ddolen o'r testun ac ychwanegu dolen i'r 'wefan'	Diwygiad wedi ei wneud yn unol â'r awgrym.	2.2.3 Ar gyfer y ffioedd priodol, cyfeirier at Enwi a rhifo strydoedd y Cyngor.
Newidiadau eraill	Cynnwys cyfeiriad at amgylchiadau lle gellid ystyried defnyddio enw stryd mewn ieithoedd eraill.	Diwygiad wedi ei wneud yn unol â'r awgrym.	1.2 Ystyriaethau'r Gymraeg 1.2.1. Gan fod gan y Cyngor hawl i bennu enwau strydoedd newydd, mae'n cydnabod pwysigrwydd ystyried y farn leol. Y polisi parthed enwau strydoedd newydd felly fydd mabwysiadu enw Cymraeg sydd yn gyson â threftadaeth a

			<p>hanes yr ardal. Bydd hyn yn dileu'r problemau o ran cyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg ar enwau strydoedd. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio arbenigedd academiaidd allanol Panel Enwau Llefydd/Strydoedd Caerdydd Ddwieithog wrth bennu enwau newydd. Bydd angen pennu enwau yn unol â gweithdrefnau llywodraethiant y Cyngor. <u>Mewn amgylchiadau eithriadol gellid ystyried enwau strydoedd mewn ieithoedd eraill, lle byddai enw stryd yn amlwg yn adlewyrchu ac yn gydnaws â chysylltiadau hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol penodol yn lleol ac yn dilyn ymgynghori â'r Panel Enwi Strydoedd a chymunedau/rhanddeiliaid lleol.</u></p>
Newidiadau eraill	Cynnig eglurhad dros y broses enwi a rhifo strydoedd.	Diwygiad wedi ei wneud yn uno â'r awgrym.	<p><u>1.5.5 Ar dderbyn cais i enwi stryd, yn dilyn cyngor gan y Panel Enwi Strydoedd fe ymgynghorir â'r Post Brenhinol a'r aelod cabinet sy'n gyfrifol am y portffolio hwn, ynghyd â'r hol aelodau ward a'r cynghorau cymuned, lle bo'n briodol. Am ragor o fanylion,</u></p>

			<p><u>ewch i Atodiad 2 (Map Proses Enwi a Rhifo Strydoedd).</u> <u>Caiff unrhyw benderfyniadau parthed ceisiadau enwi strydoedd eu gwneud yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor.</u> <u>Os codir pryderon ynghylch enw stryd arfaethedig yn cael ei wrthod, bydd y swyddog sydd â'r awdurdod dirprwyol yn gweithio gyda'r partïon perthnasol a'r aelod cabinet i ganfod enw amgen. Os na fydd yn bosibl dod i gytundeb, mae'n bosib y caiff y mater ei gyfeirio i'r Cabinet.</u></p>
--	--	--	---